# SL(6)407 – Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o dan adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae torri'r gwaharddiad hwn yn drosedd o dan adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Cyflwynir cyfundrefn sancsiynau sifil i alluogi'r rheoleiddiwr i osod cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau am beidio â chydymffurfio. Y rheoleiddiwr, at ddibenion y Gorchymyn hwn, yw'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r fangre ynddi.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sy'n ymwneud â'r sancsiynau sifil, gan gynnwys apelau. Mae apelau o dan y Gorchymyn hwn i'w cyflwyno i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn darparu bod rhaid cyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â defnyddio sancsiynau sifil. Rhaid hefyd gyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â defnyddio cosbau am beidio â chydymffurfio a hysbysiadau adennill cost gorfodaeth. Cyn i unrhyw ganllawiau gael eu cyhoeddi, mae'n ofynnol i'r rheoleiddiwr ymgynghori. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ynghylch camau gorfodi a gymerir gan y rheoleiddiwr. Mae'r rheoleiddiwr yn gallu adennill costau penodol gorfodaeth yn achos cosbau ariannol amrywiadwy.

Mae'r rheoleiddiwr yn gallu adennill unrhyw gosb ariannol benodedig, unrhyw gosb ariannol amrywiadwy neu unrhyw gosb am beidio â chydymffurfio a osodir gan y rheoleiddiwr o dan y Gorchymyn hwn ynghyd ag unrhyw gosb ariannol am dalu'n hwyr.

Mae erthygl 6 yn rhoi pwerau i swyddogion gorfodaeth i ymchwilio mewn perthynas â throseddau posibl, gan gynnwys pwerau mynediad ac ymafael.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) –** ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn erthygl 3, mae'r ddarpariaeth yn cyfeirio at "drosedd o dan adran **34D** o Ddeddf 1990". Ond ar bob achlysur arall yn y Gorchymyn hwn mae'r darpariaethau bob amser yn cyfeirio at drosedd o dan "adran **34D (3)**" o Ddeddf 1990 (gweler erthyglau 5, 6(1) a (3), a pharagraffau 1(1) ac 11(1) o'r Atodlen). Yn hyn o beth, adran 34D(3) yw'r ddarpariaeth benodol sy'n creu trosedd o dan adran 34D o Ddeddf 1990. Felly, byddai wedi bod yn fwy manwl gywir i ddyfynnu "adran **34D(3)"** o Ddeddf 1990 yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, a hefyd yn fwy cyson â darpariaethau eraill y Gorchymyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 11(1), yn y testun Cymraeg, mae'r term "determine" wedi'i gyfieithu fel "ganfyddir". Mae Geirfa yr Uned Gyfieithu Ddeddfwriaethol yn nodi "canfod" fel y term a ffefrir wrth gyfleu ystyr "determine" yng nghyd-destun canfod, sefydlu neu ddarganfod rhywbeth. Ond mae'n ymddangos ei fod yn anghywir yng nghyd-destun paragraff 11(1) lle mae'r canfod yn cyfeirio at bennu swm y gosb ariannol sydd i'w thalu i'r rheoleiddiwr, ac nad yw wedi cael ei defnyddio yn unman arall yn y Gorchymyn hwn.

Nodir y term "pennu" hefyd yng Ngeirfa yr Uned Gyfieithu Ddeddfwriaethol fel y term a ffefrir wrth gyfleu ystyr "determine" yng nghyd-destun gwahanol o nodi, gosod neu ddynodi swm ac ati. Yn hyn o beth, "pennu" yw'r term a ddefnyddiwyd fel cyfieithiad o "determine" mewn mannau eraill yn y Gorchymyn hwn yn yr un cyd-destun â pharagraffau 11(1) – gweler paragraffau 19(2) a (3), a 25(3)(c) o'r Atodlen. Yn ogystal, cyfieithwyd "determine" fel "pennu" mewn darpariaethau tebyg a geir mewn Offerynnau Statudol Cymru eraill megis paragraffau 1(1)(a) a 24(2) a (3) o'r Atodlen i OS 2018/760 (Cy. 151).

Felly, mae'n ymddangos y dylid bod wedi cyfieithu "determine" fel "bennir" yn hytrach na "ganfyddir" i gyfleu ystyr y term hwnnw'n gywir yng nghyd-destun paragraff 11(1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae rhywfaint o ddryswch hefyd mewn perthynas â chyfieithu'r term hwn yn y paragraff cyfatebol sydd wedi'i rifo o'r Atodlen i Reoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023 lle mae "ganfyddir bennir" wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) –** ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn yr Atodlen, ym mharagraff 25(2) a (3), ceir cyfeiriadau a ddisgrifir yn anghywir fel "**paragraff** (1) (b)" ond dylid eu disgrifio fel "**is-baragraff** (1) (b)" – gweler Drafftio Deddfau i Gymru 6.16(2) ynghylch cyfeiriadau cyfansawdd. Yn ogystal, ym mharagraff 28(2) o'r Atodlen, ceir cyfeiriad tebyg sy'n cael ei ddisgrifio'n anghywir fel "**paragraff** (1)(a)" y dylid ei ddisgrifio fel "i**s-baragraff** (1)(a)".

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn yr Atodlen, ym mharagraff 25(3)(c), yn y testun Saesneg, defnyddiwyd yr ymadrodd "**determining** the amount" mewn perthynas â swm y gosb. Fodd bynnag, ym mharagraff 26(c), defnyddiwyd ymadrodd ychydig yn wahanol, "**establishing** the amount", mewn perthynas â'r cosbau am beidio â chydymffurfio a'r hysbysiadau adennill cost gorfodaeth.

Yn y testun Cymraeg, cyfieithwyd "determining" ac "establishing" gan ddefnyddio'r un gair, "bennu" sy'n cyfleu ystyr nodi/gosod swm i'w dalu yn y cyd-destun hwn. Mae'n awgrymu i ddarllenydd y testun Cymraeg fod "determining the amount" ac "establishing the amount" yn golygu'r un peth yn y paragraffau hynny. Os oes gwahaniaeth mewn ystyr, byddai wedi bod yn fwy priodol defnyddio term gwahanol yn nhestun Cymraeg paragraff 26(c), megis **"gadarnhau"**. Byddai hyn wedi cyfleu ystyr "establishing" yn yr ystyr o ganfod neu ddarganfod y swm dan sylw.

Felly, nid yw'r cyfieithiad o baragraffau 25(3)(c) a 26(c) yn nhestun Cymraeg yr Atodlen yn cyfleu gwahanol ystyron posibl y testun Saesneg (os oes gwahaniaeth bwriadedig) yng nghyd-destun y paragraffau hynny. Yn ogystal, mae'n golygu bod y cyfieithiad o baragraffau 25(3)(c) a 26(c) yn nhestun Cymraeg yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn wahanol i'r hyn a geir yn y paragraffau cyfatebol yn yr Atodlen i Reoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, er bod y testun Saesneg yn union yr un fath. Ond nid yw'n glir ychwaith a yw'r gwahaniaeth wrth ddrafftio'r testun Saesneg drwy ddefnyddio "determining" ac "establishing" yn fwriadol oherwydd gwahaniaeth bwriadedig yn eu hystyr neu anghysondeb yn y gwaith drafftio.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Tachwedd 2023**